**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**11eg o Dachwedd 2024**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau – Adran Gyfreithiol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Alan Jones Evans a'r Cyng Hefin Underwood

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, CYNGOR GWYNEDD**
**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** | 11 Tachwedd 2024 |

**PWNC: EITEM 6: DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI**

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo diwygio'r drefn dirprwyo penderfyniadau i'r Is-bwyllgor.**

**Hawliau Dirprwyedig Pennaeth Amgylchedd: adolygu cymal 11.3.5 fel a ganlyn-**

**Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

- **Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu, a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod.**
- **Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.**
- **Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu , a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod.**
- **Y drefn i sicrhau fod y penderfyniad wedi ei ddirprwyo i swyddog mewn amgylchiadau lle nad yw hanes troseddol yr unigolyn, neu unrhyw fater i'w ystyried, yn groes i bolisi.**
- **Bod gan y Pennaeth ddisgresiwn o dan y Cynllun Dirprwyo i gyfeirio unrhyw gais am wrandawiad Is Bwyllgor lle mae amgylchiadau yn cyfiawnhau gwneud hynny: ni fydd y newidiadau yn effeithio ar yr hawl hynny.**

**Cyflwyno'r diwygiadau i'r Swyddog Monitro fel y gall eu cynnwys fel rhan o adroddiad 'Adolygu'r Cyfansoddiad' fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo yn derfynnol.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

O blaid: 12
Yn erbyn: 0
Atal: 0

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.